OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1272

# Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2015

**Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â cheisiadau am lety neu gynhorthwy sydd yn yr arfaeth**

**7.**—(1) Daw'r erthygl hon i rym ar 27 Ebrill 2015.

(2) Mae'r erthygl hon yn gymwys mewn perthynas â cheisydd sydd wedi gwneud cais, cyn 27 Ebrill 2015, i awdurdod tai lleol am lety neu gynhorthwy i sicrhau llety o dan Ran 7 o Ddeddf Tai 1996(**1**).

(3) Er gwaethaf erthyglau 2 a 3, mae Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 yn parhau mewn grym mewn perthynas â'r ceiswyr hyn.

(**1**) 1996 p. 52.